# Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg:
# Canllawiau Llunio Polisi
# ac Ymgynghori

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer unrhyw swyddog y Cyngor sy'n gwneud neu'n diwygio penderfyniadau polisi.

Diben y canllawiau hyn yw helpu swyddogion i gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg wrth ddatblygu neu ddiwygio polisïau.

**Beth mae angen i chi ei wneud?**

- Ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg, siaradwyr Cymraeg, a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ym Mro Morgannwg trwy ystyried:
  - effeithiau negyddol a chadarnhaol uniongyrchol ac anuniongyrchol;
  - sut y gellir lleihau effeithiau negyddol; a
  - sut y gellir datblygu effeithiau cadarnhaol.
- Sicrhau bod pob ymgynghoriad ar gyfer penderfyniadau polisi yn gofyn i bobl ystyried yr effaith ar y Gymraeg.
- Cwblhewch Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer pob penderfyniad polisi i gofnodi'r canfyddiadau hyn (fel rhan o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb).

**Sut gallwch chi wneud hyn?**

- Darllen a deall y canllawiau hyn.
- Rhannu’r canllawiau hyn a thrafod y canllawiau gyda'ch tîm.
- Gwylio seminar canllawiau Comisiynydd y Gymraeg.
- Darllen canllawiau Comisiynydd y Gymraeg.
- Gwneud yn siŵr bod asesiadau effaith yn cael eu cwblhau cyn unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus.
- Defnyddio’r asesiadau i nodi effeithiau cadarnhaol, negyddol a niwtral.
- Cyflwyno camau gweithredu i leihau effeithiau negyddol a datblygu effeithiau cadarnhaol.
- Cofnodi'r camau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfio, fel copïau o asesiadau effaith, dogfennau ymgynghori, neu gofnodion cyfarfodydd.
- Bwydo canlyniadau’r asesiad i ddogfennau polisi a chwestiynau.

**Beth yw'r canllawiau hyn?**

Mae’r canllawiau hyn yn rhoi manylion y gofynion deddfwriaethol a statudol ar gyfer datblygu polisi ac yn rhoi fframwaith i swyddogion wneud yn siŵr nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn y cyd-destun hwn, ystyr "penderfyniad polisi" yw unrhyw benderfyniad sy’n cael ei wneud gan gorff a, arfer ei swyddogaethau neu am gynnal ei fusnes neu rywbeth arall, ac mae'n cynnwys penderfyniadau am:

- arfer pwerau statudol;
- yr hyn sydd mewn datganiadau polisi;
- strategaethau neu gynlluniau strategol;

- strwythurau mewnol.

Er mwyn gwneud cyfeirio yn haws, byddwn yn defnyddio'r term polisi drwy gydol y canllawiau hyn, ond mae'n bwysig cofio bod y term yn cynnwys pob un o’r uchod.

**Pam mae angen y canllawiau hyn arnom ni?**

Mae Tribiwnlys y Gymraeg wedi gwneud penderfyniad yn ddiweddar sydd â chanlyniadau pellgyrhaeddol o ran sut mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn mynd ati i lunio polisïau.

- Y Tribiwnlys Yn Cefnogi Dyfarniad Comisiynydd y Gymraeg
- Dyfarniad Tribiwnlys y Gymraeg

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyflwyno seminar gynghori yn rhoi manylion y camau i’w cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg.
Dylai pob swyddog Cyngor sy’n rhan o ddatblygu polisi, cynnal asesiadau effaith, ac ymgynghoriadau cyhoeddus wylio’r seminar.

- Seminar Cyngor Comisiynydd y Gymraeg
- Mae cyflwyniadau hefyd ar wefan Comisiynydd y Gymraeg yma

Mae Comisiynydd y Gymraeg hefyd wedi creu canllawiau ar y safonau llunio polisi.

Canfu Comisiynydd y Gymraeg ein bod wedi methu â chydymffurfio â'r safonau perthnasol yn ymchwiliad CS1234. Un o'r camau angenrheidiol oedd rhoi canllawiau manwl ar y safonau llunio polisi.

Bydd y canllawiau hyn yn cynnwys y safonau perthnasol, penderfyniadau polisi, asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg, asesu effeithiau, ymdrech gydwybodol,

ymgynghoriad cyhoeddus, a byddant yn argymell camau gweithredu ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â phenderfyniadau llunio polisi.

**Hysbysiad cydymffurfio**

O ganlyniad i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio cyfreithiol i bob Cyngor sy'n cynnwys y safonau y mae'n rhaid i Gyngor Bro Morgannwg gydymffurfio â nhw. Gallwch weld ein hysbysiad cydymffurfio yma.

**Safonau Llunio Polisi**

Mae Safonau'r Gymraeg 88-93 a 95-97 yn ymwneud â'r broses o lunio polisi. Mae'r safonau'n esbonio sut i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddatblygu polisïau newydd neu newid polisïau presennol. Mae'r safonau hyn yn ystyried pob cam o'r broses o ddatblygu polisi, gan gynnwys asesu effaith ar y Gymraeg, a chomisiynu ymchwil, ac ymgynghoriad cyhoeddus.

Gallwch ddarllen y safonau perthnasol i gyd yn Atodiad A

**Penderfyniadau polisi**

Mae penderfyniad polisi yn unrhyw benderfyniad sy'n effeithio ar bobl, lleoedd neu wasanaethau.

Mae pum enghraifft graidd o benderfyniadau polisi yn y safonau:

- Cynnwys deddfwriaeth (er enghraifft: Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil ar gyfer trafodaeth bellach yn y Senedd)
- Ymarfer pŵer statudol (er enghraifft: penderfyniad i gau canolfan hamdden)

- Strategaeth/cynllun strategol (er enghraifft: Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) neu Gynllun Datblygu Lleol)
- Datganiad polisi (er enghraifft: polisi enwi strydoedd neu bolisi cyfryngau cymdeithasol)
- Strwythur mewnol (er enghraifft: staffio neu leoliad swyddfa)

Gall penderfyniadau polisi gael effaith fawr ar ymdrechion i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, ac ar greu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Heb ystyriaeth briodol i'r Gymraeg neu siaradwyr Cymraeg yn gynnar yn y broses o ddatblygu polisïau, mae perygl y gallai penderfyniadau gael effaith niweidiol ar yr iaith a chyfleoedd gael effaith gadarnhaol ar ei dyfodol.

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

Dim ond drwy asesiad effaith manwl y gellir asesu effeithiau penderfyniad polisi. Mae Safonau'r Gymraeg yn dweud bod yn rhaid i sefydliadau gael dull effeithiol o ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg, a chreu 'llwybr archwilio' cadarn sy'n cwmpasu ystyriaethau cyfreithiol, anghenion siaradwyr Cymraeg, strategaethau cenedlaethol a lleol, a meysydd polisi penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Mae’n rhaid i bob penderfyniad polisi gael ei gefnogi gan asesiad o'r effaith ar y Gymraeg. Mae ein hasesiad o’r effaith ar y Gymraeg wedi ei gynnwys yn ein Hasesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb y mae'n rhaid ei gwblhau hefyd ar gyfer pob penderfyniad polisi. Mae Safonau'r Gymraeg yn nodi bod yn rhaid cofnodi'r canfyddiadau. Yr asesiad effaith yw ein ffordd ni o gydymffurfio â hyn.

Nid yw rhestru datganiadau cyffredinol am waith y Cyngor neu strategaethau eraill yn ddigon. Nid yw hyn yn dangos bod effeithiau penderfyniad polisi penodol wedi cael eu hystyried ddigon neu fod camau i leihau effeithiau negyddol a hybu effeithiau cadarnhaol wedi cael eu hystyried yn briodol.

Weithiau bydd yr asesiad effaith yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw effaith ar y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Rhaid cynnwys y rhesymau a'r canfyddiadau i gefnogi'r canlyniad hwn.

**Asesu'r effeithiau**

Mae'n rhaid i'r asesiad effaith:

- Ystyried effaith y penderfyniad polisi ar y Gymraeg, cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg, ac ar siaradwyr Cymraeg, ym Mro Morgannwg nawr ac yn y dyfodol.

- Nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol.

- Ystyriwch effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol.

- Ystyried sut i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol a lleihau effeithiau niweidiol.

**Effeithiau cadarnhaol a negyddol:**

Rydym yn argymell bod tair effaith gadarnhaol a thair effaith negyddol yn cael eu nodi ar gyfer pob penderfyniad polisi i gefnogi asesiad o'r effaith ar y Gymraeg. Efallai na fydd yn bosibl nodi tair, ond mae defnyddio hyn fel sail ar gyfer yr asesiad yn caniatáu ystyriaeth ehangach a llawnach o effeithiau'r penderfyniad polisi. Yn yr un ffordd, ni ddylid cyfyngu nifer yr effeithiau cadarnhaol a negyddol i dri. Efallai y bydd nifer o effeithiau niwtral yn cael eu nodi hefyd.

Mae hyn hefyd yn golygu ei bod yn bosibl nodi ffyrdd o hybu effeithiau cadarnhaol a chynyddu'r effeithiau cadarnhaol, yn ogystal â sut mae lleihau effeithiau niweidiol.

**Effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol:**

Er mwyn rhoi ystyriaeth gydwybodol lawn, rhaid i chi nodi effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol. Effeithiau uniongyrchol yw'r rhai sy'n amlwg yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg a'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, fel cau ysgolion cyfrwng Cymraeg neu gael gwared ar foreau coffi Cymraeg. Effeithiau anuniongyrchol yw'r rhai sy'n effeithio ar amrywiaeth o bobl a grwpiau, ond sy'n cael effaith anuniongyrchol ar siaradwyr Cymraeg a'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

**Enghreifftiau**

- Byddai mwy o gefnogaeth i wasanaethau Cymraeg yn arwain at effaith gadarnhaol uniongyrchol ar y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ond byddai'r penderfyniad i roi llai o gefnogaeth yn cael effaith negyddol uniongyrchol.

- Gall newid llwybrau trafnidiaeth ysgol neu ddarpariaeth trafnidiaeth ysgol olygu bod gan siaradwyr Cymraeg lwybrau hirach neu ddrutach i gyrraedd ysgolion cyfrwng Cymraeg. Gallai'r penderfyniad polisi hwn effeithio ar bob dysgwr, ond mae'n cael effaith negyddol anuniongyrchol ar siaradwyr Cymraeg gan eu bod yn barod yn teithio pellteroedd hirach i fynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

| **Effeithiau cadarnhaol**<br><br>**A fyddai'r penderfyniad polisi...** | **Effeithiau niweidiol**<br><br>**A fyddai'r penderfyniad polisi...** |
|---|---|
| Yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n symud o / i ardal? | Yn lleihau nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n symud o / i ardal? |
| Yn gwneud y Gymraeg yn fwy amlwg? | Yn gwahaniaethu yn erbyn defnyddwyr y Gymraeg? |
| Yn arwain at gynnydd yn nifer y swyddi sydd angen sgiliau Cymraeg? | Yn arwain at lai o swyddi sydd angen sgiliau Cymraeg? |

| | |
|---|---|
| Yn arwain at fwy o wasanaethau Cymraeg penodol? | Yn arwain at gau gwasanaethau Cymraeg penodol neu roi'r gwasanaethau hynny mewn perygl? |
| Yn annog neu'n hwyluso recriwtio siaradwyr Cymraeg? | Yn ei wneud yn fwy anodd i recriwtio siaradwyr Cymraeg? |
| Yn sicrhau cynaliadwyedd ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn rhan o wead y cymunedau hynny? | Yn sicrhau cynaliadwyedd ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn rhan o wead y cymunedau hynny? |
| Yn hwyluso teithio er mwyn cael gwasanaethau Cymraeg? | Yn ei gwneud yn fwy anodd teithio i gael gwasanaethau Cymraeg? |
| Yn arwain at gynnydd yn y nifer sy'n dysgu Cymraeg? | Yn arwain at lai yn dysgu Cymraeg? |
| Yn rhoi cynnig rhagweithiol i ddefnyddwyr o wasanaeth yn Gymraeg? | Yn cyfyngu ar hygyrchedd a mynediad at wasanaethau Cymraeg? |
| Yn cymryd camau i hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg? | Yn lleihau hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg? |
| Yn cyfrannu at strategaethau iaith Gymraeg cenedlaethol a pholisïau penodol fel Cymraeg 2050, Mwy na Geiriau, ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, neu ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg? | Yn ei wneud yn anodd cyrraedd targedau a gweithredoedd sydd wedi eu nodi mewn strategaethau cenedlaethol a pholisïau penodol fel Cymraeg 2050, Mwy na Geiriau, ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, neu ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg? |

**Beth yw 'Ymdrech Gydwybodol'?**

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyfeirio at ymdrech gydwybodol. Dyma'r term a roddir i'r asesiad effaith llawn a chynhwysfawr sy’n cael ei ddisgrifio uchod.

Mae’n ofynnol yn gyfreithiol i wneud ymdrech gydwybodol i nodi effeithiau penderfyniad polisi ar y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg. Mae’r Comisiynydd wedi dweud y bydd unrhyw fath o ymarfer ticio blychau yn seiliedig ar yr ymdrech leiaf bosib, asesiadau effaith heb unrhyw dystiolaeth, a/neu asesiadau sydd ond yn nodi effeithiau negyddol, yn annigonol. Rydym yn rhagweld y bydd y Comisiynydd yn talu mwy o sylw i gŵynion sy'n ymwneud â'r maes hwn.
Mae ymdrech gydwybodol yn dibynnu ar y cyd-destun. Bydd penderfyniadau polisi sy'n cael effaith ar y defnydd o’r Gymraeg, mynediad a hyrwyddo yn destun trothwy uwch na phenderfyniadau polisi heb lawer o effaith.

**Ymgynghoriad Cyhoeddus**

Rhaid cwblhau asesiadau effaith ar y Gymraeg cyn ymgynghoriad cyhoeddus, yn yr un ffordd ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae hyn yn sicrhau bod yr asesiad effaith yn cael ei gynnwys yn nogfen ymgynghorol y polisi.

Rhaid i'r cyhoedd ac unrhyw randdeiliaid eraill fod yn ymwybodol o'r effaith ar y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae’n rhaid i'r ymgynghoriad gynnwys cwestiynau ar effeithiau posibl y penderfyniad polisi ar y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae’n rhaid i’r cwestiynau hyn ofyn am farn y cyhoedd ar yr effeithiau a'r camau a nodwyd yn asesiad y Gymraeg a gofyn am eu barn ar effeithiau a chamau gweithredu ychwanegol.

Rydym wedi newid templed arolwg Cyfranogiad Bro Morgannwg ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol i gynnwys y cwestiynau canlynol:

- Hoffem glywed eich barn ar yr effeithiau y bydd y cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn arbennig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

- Beth fyddai’r effeithiau yn eich barn chi? Sut gallai effeithiau cadarnhaol gael eu gwella, neu effeithiau negyddol gael eu lleihau?

- Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai’r dull gweithredu polisi sy’n cael ei gynnig gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn:

    - cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
    - cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
    - cael dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg; a
    - cael dim effeithiau negyddol ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Dylai'r drafft terfynol o'r penderfyniad polisi gynnwys yr argymhellion a wnaed yn asesiad o’r effaith ar y Gymraeg a'r ymatebion cyhoeddus. Dylai hefyd gynnwys newidiadau ac ychwanegiadau a wnaed yn dilyn yr asesiad effaith a'r ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd hyn yn dangos bod yr effeithiau a’r ymdrechion a nodwyd yn yr asesiad a'r ymgynghoriad wedi cael ystyriaeth gydwybodol.

**Casgliad**

Mae cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn gofyn am ystyriaeth gydwybodol i nodi'r holl effeithiau sy'n dod o benderfyniad polisi. Mae hyn yn cael ei ddangos drwy gynnal asesiadau iaith Gymraeg effeithiol sy'n mynd i'r afael ag effeithiau cadarnhaol a negyddol, ac effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol. Tystiolaeth ac egluro casgliadau niwtral.

Cefnogi pob ymgynghoriad gydag asesiad o'r effaith ar y Gymraeg gyda thystiolaeth. Rhoi digon o wybodaeth i'r cyhoedd ystyried cwestiynau'r ymgynghoriad ac i gefnogi eu hymatebion. Gyda'i gilydd, mae asesiad o’r effaith ar y Gymraeg ac

ymgynghoriad yn dangos ein bod wedi rhoi ystyriaeth gydwybodol i'r Gymraeg ar gyfer pob penderfyniad polisi.

**Atodiad A – Safonau ar gyfer llunio, adolygu a newid polisi:**

**Safon 88:** Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n diwygio polisi sy'n bodoli’n barod, mae’n rhaid i chi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (yn rhai cadarnhaol neu niweidiol), y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar

(a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, a

(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

**Safon 89:** Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n newid polisi sy'n bodoli yn barod, mae’n rhaid i chi ystyried sut y gallai’r polisi gael ei lunio (neu sut y gallai polisi presennol gael ei newid) fel y byddai'r penderfyniad polisi yn cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, ar -

(a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, a

(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

**Safon 90:** Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n newid polisi sy'n bodoli yn barod, mae’n rhaid i chi ystyried sut y gallai’r polisi gael ei lunio (neu sut y gallai polisi presennol gael ei newid) fel na fyddai'r penderfyniad polisi yn cael effeithiau niweidiol, neu eu bod yn cael effeithiau llai niweidiol, ar -

(a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, a

(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

**Safonau ymgynghori:**

**Safon 91:** Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, mae’n rhaid i'r ddogfen ystyried, a chael barn ar, yr effeithiau

(rhai cadarnhaol neu niweidiol) y byddai'r penderfyniad polisi sy'n cael ei ystyried yn eu cael ar -

(a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, a

(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

**Safon 92:** Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, mae’n rhaid i'r ddogfen ystyried, a chael barn ar, y ffordd y gallai’r polisi sy’n cael ei ystyried gael ei lunio neu ei newid fel y byddai’n cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, ar -

(a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, a

(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

**Safon 93:** Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, mae’n rhaid i'r ddogfen ystyried, a chael barn ar, y ffordd y gallai’r polisi sy’n cael ei ystyried gael ei lunio neu ei newid fel na fyddai’n cael effeithiau niweidiol, neu’n cael effeithiau llai niweidiol, ar:

(a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, a

(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

**Safonau ymchwil:**

**Safon 95:** Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud ymchwil gyda’r bwriad o’ch helpu i wneud penderfyniad polisi, mae’n rhaid i chi wneud yn siŵr bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl, (ac os ydynt yn gadarnhaol neu'n niweidiol), y byddai'r penderfyniad polisi sy'n cael ei ystyried yn eu cael ar:

(a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, a

(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

**Safon 96:** Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud ymchwil sydd wedi ei bwriadu i’ch helpu i wneud penderfyniad polisi, mae’n rhaid i chi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut gallai’r penderfyniad polisi gael ei wneud fel ei fod yn cael effaith gadarnhaol, neu’n cael effeithau mwy cadarnhaol, ar -

(a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, a

(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

**Safon 97:** Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud ymchwil sydd wedi ei bwriadu i’ch helpu i wneud penderfyniad polisi, mae’n rhaid i chi wneud yn siŵr bod yr ymchwil yn ystyried sut y gallai’r penderfyniad polisi gael ei wneud fel na fyddai’n cael effeithiau niweidiol, neu’n cael effeithiau llai niweidiol, ar -

(a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, a

(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

**Atodlen 2, Rhan 2** o Reoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 1) 2015

(2) Yn Rhan 1 o'r Atodlen hon, mae "penderfyniad polisi" yn golygu unrhyw benderfyniad sy’n cael ei wneud gan gorff am arfer ei swyddogaethau neu am gynnal ei fusnes neu rywbeth arall, ac mae'n cynnwys, ymysg pethau eraill (ac fel sy’n briodol i'r corff), benderfyniadau am - (a) cynnwys deddfwriaeth; (b) arfer pwerau statudol; (c) cynnwys datganiadau polisi; (ch) strategaethau neu gynlluniau strategol; (c) strwythurau mewnol.

(3) Yn Rhan 1 o'r Atodlen hon mae cyfeiriad at effeithiau cadarnhaol neu effeithiau niweidiol yn cyfeirio at yr effeithiau hynny p'un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.